

PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 06.03.15

Yn bresennol: Y Cynghorydd Peredur Jenkins (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Stephen Churchman, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Alwyn Gruffydd, Brian Jones, Eric M. Jones, Liz Saville Roberts ac Angela Russell

Hefyd yn Bresennol: Dilwyn O Williams (Prif Weithredwr), Sian Bebb (Ymgynghorydd Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Dyfed Edwards, Selwyn Griffith, Sian Gwenllïan, Jason Humphreys, Dyfrig Siencyn ac R.H. Wyn Williams

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Amodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwysu unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.

5. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH CEFNOGAETH CORFFORAETHOL A DATBLYGU'R SEFYDLIAD

Adroddodd y Prif Weithredwr y derbyniwyd tri cais am y swydd oedd wedi ei hysbysebu yn fewnol yn unig. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r angen i gynnal canolfan asesu o ystyried bod y tri ymgeisydd yn deilwng o fod ar y rhestr fer, nododd y Prif Weithredwr bod cynnal canolfan asesu yn greiddiol i broses penodi Pennaethiaid er mwyn sicrhau ansawdd a derbyn barn annibynnol.

PENDERFYNWYD

Rhoddi tri ymgeisydd ar y rhestr fer.

(Gwnaed cais gan y Cynghorydd Trefor Edwards i nodi nad oedd yn gefnogol i roi tri ymgeisydd ar y rhestr fer)

Atgoffwyd yr Aelodau bod y cyfweiliadau i'w cynnal Mawrth 26ain 2015.

CWESTIYNAU AR GYFER Y CYFWELIAD

Dosbarthwyd pum cwestiwn a thestun cyflwyniad ar gyfer y cyfweiliad. Trafodwyd cynnwys y cwestiynau gan awgrymu ychwanegiad i gwestiwn rhif un.

PENDERFYNWYD

I'r Adran Adnoddau Dynol addasu cwestiwn rhif un yn unol â'r argymhelliad

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 2:45pm